**EITEM AR Y RHAGLEN: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21 Medi 2009**

# DATGANIAD CYFRIFYDDU 2008-09 A'R LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd yr Awdurdod**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifyddu ar gyfer 2008-2009 i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ar 15 Mehefin 2009. Mae'r cyfrifon bellach wedi eu harchwilio gan Archwilydd penodedig Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi eu diwygio'n unol â chanfyddiadau'r archwiliad a thrafodaethau dilynol ynghylch y dull o gyfrifyddu, diffiniadau a chyflwyniad eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

2 Ynghlwm yn yr adroddiad hwn, fel atodiad 2, mae copi o ohebiaeth rhwng yr Archwilydd Allanol a minnau mewn perthynas â'r uchod. Mae'r llythyr yn egluro'r rheswm dros lythyr cynrychiolaeth.

## Gwybodaeth

3 Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y cyrff archwilio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban h.y. Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Archwilio ac Archwilio'r Alban, ynglŷn â'r effaith posibl ar y Datganiad Cyfrifyddu o Safon Riportio Ariannol 17 (FRS17), gan gyfrif am gostau Pensiwn, o ganlyniad i ddarganfod camgymeriad yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003 sy'n caniatáu ar gyfer gwrthdroi cofnodion FRS17. Roedd yna farn o ganlyniad i'r camgymeriad y dylai'r Datganiad Cyfrifyddu adlewyrchu rhan o'r gost FRS17 yn ôl y Datganiad Ymarfer Argymelledig (y SORP). Nid oes unrhyw benderfyniad ar y sefyllfa hon a bydd y Trysorydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar lafar yn y cyfarfod ar 21 Medi.

4 Yn unol a chanfyddiadau’r Archwilwyr, mae’r Datganiad Cyfrifyddu wedi cael ei newid a thra bod rhai o’r newidiadau’n ymwneud â chyflwyniad, tynnir sylw Aelodau at y prif newidiadau canlynol i’r cyfrifon:

a) Ar dudalen 2, paragraff (i), mae’r tanwariant am y flwyddyn wedi lleihau o £187,704 i £101,297 yn sgil addasiad i’r eitemau di-gyfalaf a roddwyd ar y rhaglen gyfalaf a’r angen i sefydlu darpariaeth newydd am dandaliad o fuddion pensiwn. Mae’r tabl canlynol sy’n manylu ar y tanwariant a’r gorwariant o dan y paragraff hwn hefyd wedi ei ddiwygio i ddangos y newidiadau.

b) Ar dudalen 14, gwnaed newidiadau i’r cyfrif Incwm a Gwariant i ddangos y cynnydd mewn gwariant o’r eitemau di-gyfalaf a’r cyfraniad i’r Ddarpariaeth Tandaliadau Pensiwn. Mae’r newidiadau eraill i’r datganiad yn ymwneud â chyflwyniad ac nid ydynt yn effeithio ar y ‘Llinell Sylfaen’.

c) Mae’r Datganiad Gweithgaredd ar Falans y Gronfa Gyffredinol ar dudalen 15 wedi cael ei addasu i adlewyrchu’r newidiadau i’r Cyfrif Incwm a Gwariant a’r gostyngiad i’r Gwariant Cyfalaf a roddwyd ar refeniw o ganlyniad i’r lleihad yn y tanwariant.

ch) Mae’r Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig lleihau gan £33,000 er mwyn adlewyrchu’r newid yn yr enillion prisio.

d) Mae'r Fantolen ar dudalen 16 hefyd wedi ei diwygio i ddangos y newidiadau uchod. Mae’r addasiadau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad yn gynnydd mewn credydwyr o £92,430 er mwyn adlewyrchu’r croniad am arian a gadwyd yn ôl ar waith datblygu.

dd) Gwnaed newidiadau dilynol i nodiadau’r cyfrifon i ddangos y sylwadau yn a) i d) uchod.

5 Cymeradwywyd Datganiad Cyfrifyddu 2008/2009 gan yr Awdurdod Tân ar Fehefin 15 2009 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a gan nad yw’r newidiadau’n sylweddol does ond angen i’r Aelodau nodi’r newidiadau. Fodd bynnag, mae’n ofynnol i’r Awdurdod gydnabod yn ffurfiol y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol.

## Argymhellion

6 Argymhellir fod Aelodau yn:

(i) nodi'r Datganiad Cyfrifyddu diwygiedig ar gyfer 2008-09 (atodiad 1);

(ii) chydnabod yn ffurfiol y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol (atodiad 2).